

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
07/10/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Technium OpTIC

Q10 Ann Jones: Will the First Minister make a statement on the future of the OpTIC Technium in the Vale of Clwyd? OAQ(3)1307(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): The Opto-electronics Technology and Incubation Centre Technium has been very successful in attracting research and development and commercial contracts through the established centres of expertise. The strategy to further develop these centres into a surrounding technology park is the subject of a proposed convergence bid, which would create additional world-class facilities and jobs.

Key Policy Priorities

Q11 Andrew RT Davies: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's key policy priorities for South Wales Central? OAQ(3)1304(FM)

The First Minister: All our key priorities are set out in 'One Wales'. Our investments in 2008-09 in South Wales Central include more than £5 million for community safety partnerships, £6.8 million for Flying Start and £9.8 million-worth of the school building improvement grant.

Digital Switchover

Q12 Darren Millar: What representations has the Welsh Assembly Government received regarding the impact of the digital switchover on Wales? OAQ(3)1316(FM)

Technium OpTIC

C10 Ann Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol yr OpTIC Technium yn Nyffryn Clwyd? OAQ(3)1307(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae canolfan dechnoleg OpTIC Technium wedi cael cryn lwyddiant wrth ddenu contractau ymchwil a datblygu a chontractau masnachol drwy'r canolfannau rhagoriaeth sefydledig. Mae'r strategaeth ar gyfer parhau i ddatblygu'r canolfannau hyn yn barc technoleg yn rhan o gais arfaethedig o dan y rhaglen cydgyfeirio, a fydd yn creu cyfleusterau a swyddi ychwanegol o'r radd flaenaf.

Blaenoriaethau Polisi Allweddol

C11 Andrew RT Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau polisi allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1304(FM)

Y Prif Weinidog: Amlinellir ein holl flaenoriaethau yn 'Cymru'n Un'. Mae ein buddsoddiadau yng Nghanol De Cymru ar gyfer 2008-09 yn cynnwys dros £5 miliwn ar gyfer partneriaethau diogelwch cymunedol, £6.8 miliwn ar gyfer Dechrau'n Deg, a £9.8 miliwn ar ffurf y grant gwella adeiladau ysgolion.

Newid i Ddigidol

C12 Darren Millar: Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ynghylch effaith newid i ddigidol ar Gymru? OAQ(3)1316(FM)

The First Minister: We are in regular discussions with Digital UK, the UK Government, and Ofcom about digital switchover. The Welsh Assembly Government is also represented on the UK Government's digital switchover group.

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Digital UK, Llywodraeth y DU ac Ofcom ynghylch trosglwyddo i ddigidol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cael ei chynrychioli ar grŵp trosglwyddo i ddigidol Llywodraeth y DU.

Sustainability in Schools

Cynaliadwyedd Mewn Ysgolion

Q13 Brynle Williams: What are the Welsh Assembly Government's priorities for the promotion of sustainability in schools? OAQ(3)1323(FM)

C13 Brynle Williams: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hybu cynaliadwyedd mewn ysgolion? OAQ(3)1323(FM)

The First Minister: We have a three-year action plan to promote this agenda, covering leadership, teaching and learning, school management and partnerships. We have embedded sustainability in the curriculum and we support the successful fair-trade schools and eco-schools schemes. All new school buildings will showcase sustainability by conforming to BREEAM 'excellent' standards.

Y Prif Weinidog: Mae gennym gynllun gweithredu tair blynedd i hyrwyddo'r agenda hon, sy'n cwmpasu arweiniad, addysgu a dysgu, rheoli ysgolion a phartneriaethau. Yr ydym wedi ymgorffori cynaliadwyedd yn y cwricwlwm ac yn cefnogi'r cynlluniau llwyddiannus ysgolion masnach deg ac eco-ysgolion. Bydd pob adeilad newydd yn arddangos egwyddorion cynaliadwyedd drwy gydymffurfio â safon 'rhagorol' BREEAM.

Sports Groups

Grwpiau Chwaraeon

Q14 Janet Ryder: Will the First Minister make a statement about how sports groups can help to achieve Welsh Assembly Government policy aims? OAQ(3)13199FM)

C14 Janet Ryder: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y gall grwpiau chwaraeon helpu i gyflawni nodau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)13199FM)

The First Minister: Sports groups can assist children, young people and adults to develop a whole range of skills that contribute to improving their quality of life. The 'One Wales' agenda sets out our proposals to encourage greater participation by people of all ages and social backgrounds in sport and physical activity.

Y Prif Weinidog: Gall grwpiau chwaraeon helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i ddatblygu ystod eang o sgiliau sy'n helpu i wella ansawdd eu bywydau. Mae agenda 'Cymru'n Un' yn amlinellu ein cynigion i annog mwy o bobl o bob oed ac o bob cefndir cymdeithasol i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Grid Infrastructure

Seilwaith Grid

Q15 Mick Bates: What discussions has the Minister had with the UK Government and Ofgem regarding the development of grid infrastructure in Wales? OAQ(3)1306(FM)

C15 Mick Bates: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ac Ofgem ynghylch datblygu seilwaith grid yng Nghymru? OAQ(3)1306(FM)

The First Minister: I met Lord Mogg, the chair of Ofgem in July this year, alongside the Minister for Environment, Sustainability and Housing, and the need for improved transmission networks in Wales formed part

Y Prif Weinidog: Cefais i a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai gyfarfod â'r Arglwydd Mogg, cadeirydd Ofgem, ym mis Gorffennaf. Yr oedd yr angen i wella'r rhwydweithiau trawsyrru yng

of our discussion. I also hold regular discussions with the UK Government on all energy issues.

Nghymru yn rhan o'r drafodaeth a gawsom. Yr wyf hefyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth y DU ar bob mater sy'n ymwneud ag ynni.